*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor (07385401954)

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 8FED MEDI, 2022** am **3.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 6 MEDI 2022, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael

**2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill. Pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu'n groes i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION 04.08.22**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Awst 2022 yn rhai cywir.

**7 - 12**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5. CAIS RHIF: 20/1319**

Cais rhannol ôl-weithredol i gadw estyniad a newidiadau i ganolfan ailgylchu gan gynnwys newidiadau i osodiad ac arwyneb; darparu pont bwyso, adeiladau ychwanegol, pwll gwanhau a diwygiadau draenio; newid math ac ansawdd y deunyddiau sy'n cael eu prosesu i gynnwys gwastraff gwyrdd, pren a gwydr, sychu deunydd, gweithredu boeleri biomas, prosesu deunydd ailgylchu cymysg sych, prosesu gwydr, compostio gwastraff gwyrdd, rhwygo coed, swmpio cewynnau; a gweithredu siop ailgylchu; ynghyd â newid i oriau gwaith cymeradwy (Derbyniwyd y Datganiad Amgylcheddol wedi'i ddiweddaru, cynlluniau a gwybodaeth ategol ar 14/05/21, derbyniwyd Strategaeth Ddraenio wedi'i diweddaru ar 03/08/21, a derbyniwyd Nodyn Technegol (sŵn) ar 10/01/22) **CANOLFAN AILGYLCHU LLANTRISANT, PANTYBRAD, TONYREFAIL, CF72 8YY.**

**13 - 48**

6. **CAIS RHIF: 21/1547**

Ysgubor arfaethedig ar gyfer campfa ynghyd â thanc nofio, 2 gynhwysydd nwyddau, ardal 'astroturf' a maes parcio cysylltiedig. **CANOLFAN YMWELWYR, PARC GWLEDIG CWM DÂR, HEOL DÂR, CWMDÂR, ABERDÂR, CF44 7RG**

**49 - 64**

7. **CAIS RHIF: 21/1674**

Datblygiad arfaethedig o 12 o fflatiau fforddiadwy, pwynt mynediad newydd, tirweddu a gwaith cysylltiedig (bydd fflatiau llawr gwaelod yn bodloni Safonau Cartrefi Gydol Oes, wedi'u dylunio i fod yn hygyrch i bob unigolyn ac i fod yn fwy addasadwy i anghenion hirdymor). (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar14/01/2022) (Derbyniwyd Arolwg Ymlusgiaid, Cynllun Amwynder a Bioamrywiaeth a Chynllun Tirlunio ar 27/05/22) **TIR YN STRYD EDWARD, ABERCYNON, CF45 4PY**

**65 - 88**

8. **CAIS RHIF: 22/0101**

Estyniad deulawr i'r ochr a chefn yr adeilad, ac addasiadau i eiddo presennol i greu 2 fflat hunangynhwysol. Waliau cynnal basgedi caergawell i ffurfio teras i'r gofod mwynderol blaen (Ailgyflwyno 21/1012/10)(Derbyniwyd disgrifiad diwygiedig ar 28/02/22) (Derbyniwyd Asesiad Clwydo Posibl Ystlumod ar 02/06/22) **5 TAI WESLEY, STRYD KEITH, TYLORSTOWN, FERNDALE, CF43 3DS.**

**89 - 100**

9. **CAIS RHIF: 22/0462**

Annedd ar wahân, garej a maes parcio (Derbyniwyd cynllun ffin goch diwygiedig ar 17/06/22) **TIR GER 11 CAE SIROL, YNYS-HIR, PORTH.**

**101 - 112**

10. **CAIS RHIF: 22/0659**

Trosi Tŷ Amlfeddiannaeth yn dri fflat hunangynhwysol. **23 HEOL Y COED, TREFFOREST, PONTYPRIDD, CF37 1RQ**

**113 - 122**

11. **CAIS RHIF: 22/0743**

Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd arfaethedig cartref gofal Dosbarth C3(b) (ar gyfer hyd at chwe phreswylydd yn byw fel un aelwyd gyda gofal yn cael ei ddarparu) **WINDY RIDGE, TREM HYFRYD, YNYS-Y-BWL, PONTYPRIDD, CF37 3PF.**

**123 – 130**

12. **CAIS RHIF: 22/0920**

Gosod ystafell newid ddur gwrth-fandaliaid **YSGOL GYMUNED GLYNRHEDYNOG, TERAS EXCELSIOR, MAERDY, GLYNRHEDYNOG, CF43 4AR**

**131 - 136**

**ARCHWILIAD O'R SAFLE**

13. **CAIS RHIF: 22/0492**

Ardal barcio (ôl-weithredol) a mynediad cwrb isel dros lwybr troed cyhoeddus. **36 HEOL ABER-RHONDDA, PORTH, CF39 0BB**

**137 - 146**

**CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

14. **CAIS RHIF: 22/0347**

Cais i newid defnydd o siop (A1) i siop bwyd brys sy'n gwerthu pizzas (A3) gan gynnwys mân newidiadau allanol i ddrysau a ffenestri (derbyniwyd disgrifiad, cynllun a manylion diwygiedig ar 10/06/2022). **56A HEOL Y JIWBILÎ, ABERAMAN, ABERDÂR, CF44 6DD**

**147 - 162**

15. **CAIS RHIF: 22/0614**

Newid defnydd Siop Fanwerthu A1 i Siop Pysgod a Sglodion A3. **11 HEOL CLYDACH, CWM CLYDACH, TONYPANDY, CF40 2BD**

**163 - 174**

16. **CAIS RHIF: 21/1690**

Bwriad i adeiladu annedd newydd gyda garej ynghlwm (Ailgyflwyno 21/1208/10) (Ffin llinell goch ddiwygiedig wedi dod i law 10/03/2022), **TIR GER CARTREF MELYS, HEOL LLECHAU, WATTSTOWN, PORTH, CF39 0PP.**

**175 - 188**

17. **CAIS RHIF: 22/0468/10**

Newid defnydd hen glinig Llwyn yr Eos (Dosbarth Defnydd D1) i annedd preswyl (Dosbarth Defnydd C3). **CLINIG LLWYN YR EOS, YR HEOL FAWR, PENTRE'R EGLWYS, PONTYPRIDD, CF38 1RN**

**189 – 210**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**18. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 08/08/2022 – 26/08/2022:

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd;
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau;
Trosolwg o Achosion Gorfodi; a
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**211 - 224**

**19. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad: -**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees ac Y Cynghorydd W Lewis)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes,
Y Cynghorydd C Middle, Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd J Smith,
Y Cynghorydd L A Tomkinson, Y Cynghorydd D Williams ac
Y Cynghorydd R Williams

Pennaeth Cynllunio
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd